| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **24 TACHWEDD 2015** |
| **TEITL:** | **GWRTHWYNEBIAD I RYBUDD DIGWYDDIAD DROS DRO SAFONOL 342 HIGH STREET, BANGOR , GWYNEDD** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**1. RHYBUDD DIGWYDDIAD DROS DRO**

1.1 Derbyniwyd Rhybudd Digwyddiad Dros Dro (TEN) ar 12 Tachwedd 2015 oddi wrth Mrs Susan Roberts mewn perthynas â chynnal gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn 342 Stryd Fawr, Bangor am 2 ddiwrnod cychwyn 18 Rhagfyr 2015 - 19 Rhagfyr 2015. Yr amseroedd yn ystod y digwyddiad y mae'r defnyddiwr yr eiddo yn dymuno cynnal gweithgareddau trwyddedig yw:
18 Rhagfyr 2015 o 11:00 – 03:00
19 Rhagfyr 2015 o 11:00 – 23:59

1.2 Mae'r rhybudd yn dymuno caniatáu hyd at 250 o bobl ar y safle ar gyfer gwerthu alcohol a lluniaeth hwyr y nos. Mae natur yr eiddo yn cael ei ddisgrifio fel "Lounge Bar & Club" ac mae'r digwyddiad yn cael ei ddisgrifio fel 'Noson Gymdeithasol & Digwyddiad Clwb Nos'. Gwelir copi o'r rhybudd fel Atodiad 1.

**2. HYSBYSIADAU GWRTHWYNEBU**

2.1 Derbyniwyd hysbysiad gwrthwynebu i'r rhybudd digwyddiad dros dro safonol oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru drwy e-bost ar 16 Tachwedd 2015. Gwelir Atodiad 2.

2.2 Derbyniwyd hysbysiad gwrthwynebu i'r rhybudd digwyddiad dros dro safonol oddi wrth Iechyd Amgylchedd drwy e-bost ar 17 Tachwedd 2015. Gwelir Atodiad 3.

**3. MATERION I'W PENDERFYNU AC OPSIYNAU**

3.1 Gan ystyried y rhybudd digwyddiad dros dro a'r hysbysebion gwrthwynebu'r ddau berson perthnasol, rhaid i'r is-bwyllgor cymryd unrhyw gamau y maent yn ei ystyried yn angenrheidiol at gyfer hyrwyddo'r pedwar amcan Trwyddedu, sef

- Atal Trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y Cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac
- Amddiffyn plant rhag niwed.

3.2 Yr opsiynau sydd ar gael i'r is-bwyllgor yw:

- Gwneud dim a chaniatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiad digwyddiad dros dro; **NEU**
- I gyhoeddi gwrth-hysbysiad, h.y. i wrthod y digwyddiad yn unol â Rhan 105(2)(b) o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 os yw'r is-bwyllgor yn ystyried fod angen gwneud hynny er mwyn hyrwyddo un o'r amcanion Trwyddedu.

3.3 Yn yr achos hwn, **ni all** yr is-bwyllgor:

- Gosod un neu fwy o amodau ar y rhybudd digwyddiad dros dro safonol oherwydd nid oes trwydded eiddo na thystysgrif clwb mewn lle ar gyfer unrhyw ddarn o’r eiddo ble mae’r rhybudd digwyddiad yn berthnasol.
- Gosod addasiadau i’r rhybudd digwyddiad dros dro safonol. Gall rhybudd digwyddiad dros dro safonol cael ei addasu ar unrhyw adeg cyn bod gwrandawiad yn cael ei gynnal neu hepgor os bydd person perthnasol, gyda chytundeb defnyddiwr yr eiddo a’r person perthnasol arall, drwy wneud addasiadau i’r hysbysiad.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i’r is-bwyllgor ystyried yr hysbysiadau gwrthwynebu mewn perthynas â’r rhybudd digwyddiad dros dro safonol a dod i benderfyniad i

- Ganiatáu i’r digwyddiad fynd yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiad digwyddiad dros dro, neu
- Cyhoeddi gwrth-hysbysiad, h.y. i wrthod y digwyddiad oherwydd y mae’r is-bwyllgor yn ystyried fod angen gwneud hynny er mwyn hyrwyddo un o’r amcanion Trwyddedu.